

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

---

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

#### *Huw cyn*

Mae'r cyfansoddwr yma yn gyfforddus iawn gyda'i iaith gerddorol ei hun – iaith soffistigedig sy'n adlewyrchu dealltwriaeth lwyr o ddatblygiadau cerddorol yr ugeinfed ganrif a dechrau'r ganrif hon. Yn ei ddarn, '*Cwsg – Deuawd i ddau biano*', mae'n llwyddo i'n tywys ar siwrne emosiynol. Mae'n ddarn coffa ('*er cof am daid annwyl*'), ac yn y tri paragraff byr ar y dechrau mae *Huw cyn* yn rhannu ei feddyliau a'r syniadau y tu ôl i deitlau'r symudiadau – '*Y Deffro*', '*Y Ddawns*' ac '*Yr Huno*'. Mae'r gwaith yn seiliedig ar y caneuon a'r alawon gwerin, '*Deffrown, Deffrown*', '*Dadl Dau*' a '*Pwt ar y Bys*'.

Wedi'r symudiad cyntaf, '*Y Deffro*' (sy'n adeiladu at uchafbwynt pwerus cyn cloi gyda diweddglo hollol hyfryd) mi ydyn ni'n cael ein taflu mewn i *tour de force* go iawn. Roeddwn yn edmygu dawn y cyfansoddwr i gynnal y diddordeb cerddorol cyhyd yn '*Y Ddawns*'. Mae'n gynfas mawr i'w lenwi (28 tudalen yn y *tempo* yma), ond mae'n symudiad llwyddianus.

Cefais bleser anghyffredin wrth chwarae'r symudiad yma, a gwerthfawrogais y strwythuro gofalus a chrefftus. Mae'r tynnu'n ôl cyn dychwelyd at fwrlwm y *Tempo primo* yn gweithio i'r dim. Cord cyntaf b. 164 yw cord gorau'r gystadleuaeth i mi!

Un o'r cyfarwyddiadau mi ydyn ni'n cwrdd â nhw yn ystod adran olaf '*Y Ddawns*' yw *con fuoco*, ac yn wir, mae'r gerddoriaeth ar dân erbyn y diwedd. I gloi'r *triptych* trawiadol yma, mae'r symudiad olaf, '*Yr Huno*' yn defnyddio arddull gorawl i greu naws fyfyrionol a thyner. Harmoni cynnes gyda llinell fas fwriadol statig sy'n creu'r llonyddwch fan hyn, wrth i'r ddeialog syml rhwng y ddau biano fynd yn ei blaen.

Mae barrau ola'r darn yn wirioneddol hardd, ac mae un yn synhwyro yn y cordiau terfynol yr emosiynau sy'n dod weithiau gyda cholled neu brofedigaeth.

Dyma ychwanegiad gwerthfawr at y *répertoire* pianyddol Cymreig. Mae 'Cwsg' yn ddarn sy'n haeddu cael ei lwyfannu, ac sydd, heb amheuaeth yn gwbl deilwng o Fedal Gyfansoddi Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Brycheiniog a Maesyfed 2018.